OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1221

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

**Diwygio Rheoliadau 2013**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau 2013 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

"ystyr "cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal" ("*the Health and Care Professions Council register*") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001;";

"ystyr "radiograffydd cofrestredig" ("*registered radiographer*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 11 o gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;";

"ystyr "radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol" ("*therapeutic radiographer independent prescriber*") yw person—

(a) sy'n radiograffydd cofrestredig, a

(b) y cofnodir yn erbyn ei enw yn Rhan 11 o gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal —

(i) hawl i ddefnyddio'r teitl "radiograffydd therapiwtig"; a

(ii) nodyn yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol;".

(3) Yn rheoliad 2(1) —

(a) yn y diffiniad o "rhagnodydd" ("*prescriber*") ar ôl "ciropodydd-ragnodydd annibynnol" mewnosoder ", radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol"; a

(b) yn is-baragraff (c)(i) o ddiffiniad "rhagnodydd atodol" ("*supplementary prescriber*") ar ôl "chiropodyddion a phodiatryddion," mewnosoder " deietegwyr,".